**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**

**6 MEHEFIN 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 6 Mehefin 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Sam Swash (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Mel Buckley, Gladys Healey, Andy Hughes, Fran Lister, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin a Debbie Owen |
| **DIRPRWYON:** | Y Cynghorydd Marion Bateman (ar ran y Cynghorydd Carol Ellis)<br>Y Cynghorydd Bill Crease (ar ran y Cynghorydd Roz Mansell)<br>Y Cynghorydd Ryan McKeown (ar ran y Cynghorydd Tina Claydon) |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles);<br>Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid a Gwerth Cymdeithasol), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol);<br>Uwch Reolwr Plant a'r Gweithlu,<br>Uwch Reolwr (Gwasanaethau Integredig ac Arweinydd Oedolion); Rheolwr Gwasanaeth yr Uned Ddiogelu (ar gyfer rhif 4 ar y rhaglen); Arweinydd Lles a Phartneriaethau (ar gyfer rhif 5 ar y rhaglen); Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) a Rheolwr Diogelu Plant (ar gyfer eitem rhif 6 ar y rhaglen); Rheolwr Comisiynu (ar gyfer eitem 7 ar y rhaglen); Swyddog Cynllunio a Datblygu (ar gyfer eitem 8 ar y rhaglen) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

## 1. PENODI CADEIRYDD

Hysbysodd yr Hwylusydd y Pwyllgor bod y Cyngor Sir wedi penderfynu y byddai Grŵp Llais y Bobl Sir y Fflint yn cadeirio'r Pwyllgor hwn. Cafodd y Pwyllgor wybod yr enwebwyd y Cynghorydd Sam Swash fel Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor.

Roedd y Cynghorydd Swash yn dymuno cofnodi ei ddiolch i'r cyn-gadeirydd, y Cynghorydd Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cynghorydd Sam Swash yn Gadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Cynigodd y Cynghorydd Marion Bateman y Cynghorydd Debbie Owen. Eiliwyd y cynnig hwnnw gan y Cynghorydd Dave Mackie.

Cynigodd y Cynghorydd Mel Buckley y Cynghorydd Gladys Healey.  Eiliwyd y cynnig hwnnw gan y Cynghorydd Fran Lister.

Ar ôl cynnal pleidlais penodwyd y Cynghorydd Gladys Healey.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cynghorydd Gladys Healey yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**4. COFNODION** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024 a 9 Chwefror 2024 i'w cymeradwyo.

Cymeradwywyd y cofnodion ar gyfer y ddau gyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Cofnodion 18 Ionawr 2024 a Chofnodion 9 Chwefror 2024 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

**5. RHAGLEN WAITH** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Rhaglen Waith bresennol y Pwyllgor ac Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu i'w hystyried a chroesawodd unrhyw gwestiynau gan Aelodau.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL DIOGELU OEDOLION A PHLANT** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth a'r Uned Ddiogelu yr adroddiad a darparodd drosolwg o'r Uned Ddiogelu, ei swyddogaethau statudol a'r meysydd sy'n cael eu cynnwys yn y pum gwasanaeth.  Cyflwynwyd gwybodaeth am gyllid Llywodraeth Cymru (LlC) hefyd, y gwaith ar y cyd gyda'r Gwasanaethau Plant a'r cysylltiadau gyda'r Grwpiau Rhanbarthol.

Yn dilyn cwestiwn am sicrwydd, awgrymodd yr Uwch Reolwr (Plant a'r Gweithlu) y dylid ychwanegu adroddiad yn amlinellu cryfderau a heriau'r Hwb Diogelu newydd at Raglen Waith y Pwyllgor.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiad fel gwybodaeth berthnasol mewn cysylltiad â Diogelu Sir y Fflint ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024 a'r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd;

(b) Bod y Pwyllgor wedi rhoi sylw dyledus i'r amrywiaeth o weithgareddau ar draws yr Uned Ddiogelu a datblygiad a gwelliannau parhaus o ran darpariaeth gwasanaeth; a

(c) Bod y Pwyllgor yn fodlon bod y Broses Ddiogelu ar gyfer Oedolion a Phlant yn Sir y Fflint yn gadarn.

## 7. CYMUNEDAU SY'N GYFEILLGAR I OED (Dolen i'r recordiad)

Wrth gyflwyno'r adroddiad darparodd Cydlynydd Strategaeth Pobl Hŷn ac Arweinydd Lles a Phartneriaethau'r wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd datblygu Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed yn Sir y Fflint. Darparwyd diffiniad o Gymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed gydag amlinelliad o sut y rhennir ffocws cymunedau sy'n gyfeillgar i oed gyda'r holl adrannau a phartneriaid er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hystyried wrth ddylunio prosiectau.

- Gwaned cais i lobïo BT i geisio cyfradd wasanaeth is ar gyfer defnyddwyr data isel. Byddai hyn yn galluogi pobl hŷn i fforddio prynu Gwasanaethau Rhyngrwyd a Llinell Dir.
- Gwnaed cais bod y Bws Dementia ar gael i'r Aelodau er mwyn iddynt brofi'r hyfforddiant a ddarperir.
- Gwnaed cais y dylid gwahodd y Tîm Heneiddio'n Dda i fynychu cyfarfod Cyngor Tref Cei Connah i drafod mentrau sy'n gyfeillgar i oed ymhellach.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed i ddatblygu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed yn Sir y Fflint gan gynnwys y cais llwyddiannus am aelodaeth gyda Rhwydwaith Fyd-eang Sefydliad Iechyd y Byd; a

(b) Bod y Pwyllgor yn ymrwymo i ddarparu cefnogaeth a chydweithrediad parhaus i'r holl dimau gwasanaeth i gynorthwyo i ddatblygu Sir y Fflint fel lle gwych i fyw ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio.

8. **ADRODDIAD ARCHWILIO TALIADAU GOHIRIEDIG** (Dolen i'r Recordiad)

Cyflwynodd Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) yr adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am y Cynllun Taliadau Gohiriedig a'r adolygiad a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol i sicrhau tryloywder, gyda gorgyffwrdd gyda'r gwasanaethau cyfreithiol a gwasanaethau adennill dyledion. Cadarnhawyd y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn dilyn awgrym gan Aelod cytunwyd bod adroddiad ar Asesiadau Ariannol a Thaliadau'n cael ei ychwanegu at y Rhaglen Waith ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth ar y camau gweithredu a gymerwyd ers cwblhau'r adroddiad Archwilio Mewnol; a

(b) Bod y Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd bod y camau gweithredu sy'n weddill yn cael eu cyflawni o fewn y terfynau amser a nodwyd yn yr adroddiad archwilio a bod y cynnydd yn cael ei fonitro'n effeithiol.

9. **ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn amlinellu cyflwr y gwasanaeth, yn tynnu sylw at agweddau cadarnhaol a heriol ac yn gosod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Croesawodd adborth gan Aelodau y gellir ei ystyried cyn datblygu'r drafft terfynol.

Cafodd yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24 ac yn darparu adborth i Swyddogion cyn ystyried cyflwyniad terfynol yr adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf 2024.

10. **AROLWG GWERTHUSO PERFFORMIAD, AROLYGIAETH GOFAL CYMRU O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL TACHWEDD 2023 - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNLLUN GWEITHREDU** (Dolen i'r Recordiad)

Eglurodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) bod y Cynllun Gweithredu yn ymateb i adroddiad yr Arolwg Gwerthuso Perfformiad. Tynnwyd sylw'r pwyllgor at rannau penodol o'r adroddiad gyda'r Prif Swyddog yn nodi ei fod yn adroddiad cadarnhaol ar gyflwr y gwasanaeth a gefnogir yn dda yn Sir y Fflint gyda nifer o'r datblygiadau arfaethedig yn derbyn cefnogaeth

yr Arolygydd.

Nododd y Cadeirydd gan mai dyma gyfarfod olaf y Prif Swyddog, ei fod yn cynnig y dylid diolch i Neil am ei wasanaeth.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi canlyniad yr adroddiad; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynllun gweithredu dilynol.

## 11. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 5.20 pm)

..............................
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd eu gwe-ddarlledu, ac mae modd eu gwylio drwy fynd i'r llyfrgell gwe-ddarllediadau yma: https://flintshire.public-i.tv/core/portal/home